Her Iechyd Cymru
Health Challenge Wales

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work





# Gwobr Iechyd Gweithle Bach

## Faint mae afiechyd yn ei gostio i fusnes?

Collwyd tua 175 miliwn o ddiwrnodau gwaith oherwydd salwch ym Mhrydain yn 2006, sy'n cyfateb i saith niwrnod i bob unigolyn sy'n gweithio. Yng Nghymru, ar gyfartaledd, mae absenoldeb oherwydd salwch yn costio £659 i gyflogwyr ar gyfer pob gweithiwr bob blwyddyn.

## Pam y dylwn i gymryd rhan mewn materion iechyd yn y gweithle?

Mae'r achos busnes dros wella iechyd yn y gweithle yn parhau i gryfhau. Mae ffocws ar iechyd a lles yn gallu calonogi ac ysgogi gweithwyr ac arwain at fwy o effeithiolrwydd, cynhyrchiant ac ysbryd cystadleuol. Amcangyfrifir bod arferion effeithiol yn y gweithle yn gallu lleihau absenoldeb salwch o 20-50 y cant.

## Pa gymorth sydd ar gael i mi?

Mae cymorth a chyngor ar gael yn rhad ac am ddim i fusnesau a sefydliadau bach i ddatblygu mentrau iechyd a lles yn y gweithle, trwy'r 'Wobr Iechyd Gweithle Bach'.

## Beth yw'r Wobr Iechyd Gweithle Bach?

Y Wobr Iechyd Gweithle Bach yw'r marc ansawdd cenedlaethol newydd ar gyfer iechyd a lles yn y gweithle, i sefydliadau sy'n cyflogi llai na 50 o bobl. Mae tair lefel i'r wobr (efydd, arian ac aur) i gydnabod pob cam datblygu sydd wedi'i gyflawni.

75% wedi'i ailgylchu recycled

D6220809

## Sut rwy'n cymryd rhan?

Gallwch chi gadarnhau bod gennych ddiddordeb mewn cael cymorth a chyngor rhad ac am ddim drwy gysylltu â'ch Cynghorydd Rhanbarthol ar Iechyd yn y Gweithle neu drwy fynd i'r wefan:

Cymru Iach ar Waith

e-bost: IechydynyGweithle@wales.nhs.uk

Gwefan: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/cymru-iach-ar-waith/



